**COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL**

**Cofnodion y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd dros y rhwydwaith fideo am 2.30 ar 16 Tachwedd 2016**

**Yn bresennol**:

Aelodau: Geraint James (Cadeirydd)
Gareth Eyres
Andrew Green (Cadeirydd y Bwrdd Cyfarwyddwyr)
Dr Gwyn Lewis (Cyfarwyddwr)
Gareth Pierce

Archwilwyr Allanol: Ian Clarke, PriceWaterhouseCoopers
Andrew Howells, PriceWaterhouseCoopers

Staff y Coleg: Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr
Dr Dylan Phillips, Uwch Reolwr Academaidd
Catherine Rees, Ysgrifennydd y Coleg
Nia Brown, Swyddog Datblygu
Suzanne Lewis, Uwch Swyddog Gweinyddiaeth

Ymddiheuriadau: Yr Athro Iwan Davies
Dr Rhodri Llwyd Morgan
Dr Dafydd Trystan, Cofrestrydd

| **Eitem** | **Prif bwyntiau trafod** | **Pwyntiau Gweithredu** | **Cyfnod amser** |
|---|---|---|---|
| **1. Croeso ac ymddiheuriadau** | 1.1 Croesawyd yr aelodau'n ffurfiol i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Estynnwyd croeso i Ian Clarke ac Andrew Howells o'r Archwilwyr Allanol.<br>1.2 Croesawyd Dr Gwyn Lewis i'r cyfarfod a diolchwyd iddo am fynychu yn absenoldeb yr aelodau arferol.<br>1.3 Nodwyd ymddiheuriadau, fel uchod.<br>1.4 Estynnwyd cydymdeimlad i Dr Dafydd Trystan a'r teulu yn eu profedigaeth. | | |

| Eitem | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod amser |
|---|---|---|---|
| **2. Datganiadau o ddiddordeb** | 2.1 Nid oedd datganiadau o ddiddordeb. | | |
| **3. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol** | 3.1 Derbyniwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfod blaenorol, a gynhaliwyd ar 18 Hydref 2016, fel cofnod cywir. | | |
| **4. Cyfrifon Blynyddol 2015/16** | 4.1 Cafwyd cyflwyniad ar Gyfrifon Blynyddol y Coleg ar gyfer 2015/16 gan Ian Clarke o'r Archwilwyr Allanol.<br>4.2 Nodwyd rhai newidiadau ac ychwanegiadau i'r testun er mwyn egluro'r cyd-destun ar gyfer y dyfodol.<br>4.3 Derbyniwyd y Cyfrifon i'w cyflwyno i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 23 Tachwedd ar gyfer cymeradwyaeth. | IC a IM i gyd-lynu'r diwygiadau | Tachwedd 2016 |
| **5. Adroddiad yr Archwilwyr Allanol 2015/16** | 5.1 Cyflwynwyd crynodeb o adroddiad blynyddol yr Archwilwyr Allanol ar gyfer 2015/16 gan Ian Clarke.<br>5.2 Adroddwyd bod lefel y cronfeydd wrth gefn ar 31 Gorffennaf 2016 yn adlewyrchu'r cytundeb a wnaed gyda'r Cyngor Cyllido i wario cyfran o grant 2015/16 yn ystod 2016/17, er mwyn lliniaru effaith y cwymp sylweddol ym maint grant y Coleg gan y Cyngor Cyllido ar gyfer y flwyddyn academaidd bresennol.<br>5.3 Nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi yn ddiweddar bod cyllideb o £5.73m wedi ei dynodi ar gyfer y Coleg yn 2017/18. Mae hyn yn darparu sefydlogrwydd yn y tymor byr i ganolig.<br>5.4 Diolchwyd y swyddogion am y gwaith manwl sydd wedi ei gyflawni i sicrhau bod argymhelliad yn Adroddiad Diamond y dylid dynodi cyllideb sefydlog i'r Coleg yn y dyfodol.<br>5.5 Derbyniwyd yr adroddiad a diolchwyd i'r Archwilwyr Allanol yn ffurfiol am eu gwaith. | | |

| Eitem | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod amser |
|---|---|---|---|
| **6. Materion yn Codi** | 6.1 Eitem 6 – Adroddiad Yswiriant y Coleg – Nododd yr Ysgrifennydd nad oedd amodau'r yswiriant yn manylu ar ymosodiad seiber. Argymhellwyd y dylid sicrhau bod amodau'r yswiriant yn cynnwys ymosodiad seiber.<br>6.2 Eitem 9 – Archwilwyr Mewnol – Bydd y swyddogion yn cytuno ar gynnwys amserlen waith yr archwilwyr maes o law a chynhelir yr archwiliad cyllid yn fuan. | CR i sicrhau amodau yswiriant i gynnwys ymosodiad seiber<br><br>Cadarnhau amserlen waith a chynnal archwiliad cyllid | Cyn 14 Chwefror 2017<br><br>Cyn 14 Chwefror 2017 |
| **7. UFA** | 7.1 Trefniadau bancio. Adroddodd yr Ysgrifennydd bod pedwar banc wedi ymateb i wahoddiad i fynychu cyfarfod gyda Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r swyddogion, fel rhan o ymarfer i adolygu trefniadau banc y Coleg. | CR i drefnu cyfarfodydd gyda'r banciau | Ionawr 2017 |
| **8. Dyddiadau a lleoliadau'r cyfarfodydd nesaf** | 8.1 Nodwyd y cyfarfodydd canlynol:<br>• 14 Chwefror 2017, 10.00-12.30<br>• 16 Mai 2017, 10.00-12.30 | | |